Welsh:Voice-5-english 12/3/08 4:31 PM Page 1

Ilythyr newyddion

LLAIS SIR GÂR

A'R ENILLYDD YW....

ThaDiolch i bawb a gyfrannodd at ein harolwg diwethaf. Mae cwblhau'r arolygon yn cymryd amser, ac mae'r ymatebion rydym wedi eu derbyn yn dangos yn glir eich bod wedi rhoi ystyriaeth ddwys i bob cwestiwn.

I ddangos ein bod yn gwerthfawrogi eich ymdrechion ac i ddiolch ichi, rydym yn cynnwys pob un o'r arolygon a ddychwelir mewn raffl fawr. Tynnwyd y raffl ar gyfer Arolwg 20 yn ddiweddar a daw'r enillydd o ardal **Llanelli** ac erbyn hyn mae £50 yn gyfoethocach!

AROLWG 23

Yn Arolwg 23 fe wnaethom ofyn eich barn am amrywiaeth eang o faterion, a diolch o galon i bawb a ymatebodd.

Gofynnodd **Cyngor Sir Caerfyrddin** am eich sylwadau ar:

- Y Celfyddydau a Diwylliant
- Y Gwasanaethau Llyfrgelloedd a Threftadaeth

Gofynnodd **Heddlu Dyfed-Powys** am eich sylwadau ar:

- Plismona Bro
- Disgo Golau Glas
- Data symudol

Gofynnodd **Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin** am eich sylwadau ar:

- Y Gwasanaethau sydd ar Gael Eisoes yn Eich Ardal
- Datblygu a Darparu Gwasanaethau yn eich Ardal
- Cefnogi Pobl

Gofynnodd **Ardal Brawf Dyfed-Powys** am eich sylwadau ar:

- Y System Asesu Troseddwyr
- Rhaglen Achrededig Ymddygiad Troseddol
- Hyder y cyhoedd yng ngwaith Ardal Brawf Dyfed-Powys



PANEL DINASYDDION SIR GAERFYRDDIN

RHYFIN 22 – TACHWEDD 2008

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Y Celfyddydau a Diwylliant

Er mwyn cynllunio ar gyfer dyfodol cyfleusterau celfyddydol a diwylliannol y Cyngor (amgueddfeydd, orielau celf a gwyliau / digwyddiadau) roeddem wedi gofyn cyfres o gwestiynau ichi am eich gweithgareddau presennol a'ch barn chi am y cyfleusterau hyn. Roedd ychydig mwy na hanner ohonoch (50.4%) wedi dweud eich bod chi neu aelod o'ch teulu wedi ymweld â digwyddiad celfyddydol neu ddiwylliannol yn Sir Gaerfyrddin yn y 12 mis diwethaf.

Roeddech wedi dweud eich bod fel arfer yn ymweld â neu'n defnyddio cyfleusterau celfyddydol a diwylliannol er mwyn…..

Ymweld â'r theatr	47.8%
Ymweld â'r sinema	59.6%
Ymweld â gwyliau a digwyddiadau byw	39.0%
Ymweld ag arddangosfeydd celf a chrefft	48.2%
Dysgu sgiliau artistig	6.6%
Cymryd rhan mewn celf perfformio	5.7%
Mynd â phlant i ymarferion neu weithgaredd	11.8%
Cymryd rhan mewn gweithgaredd celfyddydau gweledol	11.4%
Ymlacio	28.9%
Cymryd rhan mewn gweithgaredd llenyddol	5.3%
Oherwydd diddordeb arbenigol	11.0%
Cymryd rhan neu fynychu digwyddiad Cymraeg	12.8%
Oherwydd diddordeb proffesiynol	6.6%

Roeddech yn cytuno fod gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol Sir Gaerfyrddin yn atyniadol i ymweld â nhw neu i'w mynychu (87.5% yn cytuno), yn lleoedd diogel ac wedi'u trefnu'n dda (93.0% yn cytuno) yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda (81.5% yn cytuno) yn hawdd eu cyrraedd (80.7% yn cytuno) ac yn hawdd mynd iddynt (80.6% yn cytuno). Er hynny, roedd y gyfran oedd yn cytuno bod y gweithgareddau'n cael eu hyrwyddo'n dda yn llawer llai (57.4% yn cytuno).

Diffyg gwybodaeth (36.6%) oedd ar ben y rhestr pan ofynnwyd ichi pa agweddau fyddai'n eich cadw chi a'ch teulu rhag ymweld â neu fynychu gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yn Sir Gaerfyrddin, a'r ail ar y rhestr oedd anawsterau parcio (30.7%) a ddim digon o amrywiaeth yn y rhaglenni (22.4%). Roedd mwy na hanner ohonoch (57.7%) wedi dweud ei fod yn bwysig gennych gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol (14.6% yn bwysig iawn 43.1% yn weddol bwysig).

Roedd yn galonogol bod cyfran uchel ohonoch wedi dweud eich bod yn fodlon ar y gweithgareddau / cyfleusterau celfyddydol a diwylliannol oedd yn cael eu darparu yn ardal Sir Gaerfyrddin – 79.9% yn fodlon ar y gweithgareddau a 80.8% yn fodlon ar y cyfleusterau.

Y Gwasanaethau Llyfrgelloedd a Threftadaeth

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnal adolygiad o'i Wasanaethau Llyfrgelloedd a Threftadaeth er mwyn clustnodi'r dewisiadau o ran y gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r Cyngor am wario'r arian sydd ar gael ar gyfer y Gwasanaethau Llyfrgelloedd a Threftadaeth yn y modd mwyaf effeithiol posibl er mwyn diwallu anghenion pobl Sir Gaerfyrddin.

Pan ofynnwyd ichi pa mor aml y byddwch yn ymweld â llyfrgelloedd, roedd y gyfran fwyaf ohonoch wedi dweud 'byth' (32.6%). Yn agos at y rhain oedd y rhai a atebodd 'llai nag unwaith y mis' (32.0%). 2.6% ohonoch yn unig a ddywedodd eich bod wedi ymweld 'mwy nag unwaith yr wythnos'.

Roedd y bobl a oedd yn defnyddio llyfrgell, wedi dweud mai'r rhesymau mwyaf poblogaidd oedd……..

Benthyg llyfr (oedolion)	71.4%
Cael gwybodaeth	51.3%
Benthyg llyfr (plant)	16.2%
Defnyddio'r casgliadau hanes lleol	16.2%
Defnyddio'r llungopïwr	14.9%

Roedd yn galonogol bod y mwyafrif o'r defnyddwyr llyfrgelloedd wedi dweud eu bod yn gallu dod o hyd i'r llyfr / gwybodaeth a ddymunent yn rhwydd……



Yn gyffredinol, roeddech wedi dweud eich bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarparwyd gan Wasanaeth Llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin.



Y 3 phrif reswm a roddodd y bobl a oedd heb ddefnyddio llyfrgell oedd:

1. Prynu fy holl lyfrau	54.9%
2. Dim diddordeb mewn defnyddio llyfrgelloedd	19.2%
3. Mae llyfrgelloedd yn amherthnasol imi	11.4%

Pan ofynnwyd i'r bobl a oedd heb ddefnyddio llyfrgelloedd, 'Beth fyddai'n achosi ichi ddefnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn amlach?' y 3 awgrym uchaf oedd.....

1. Oriau agor hirach	44.3%
2. Mwy o gyhoeddusrwydd am y gwasanaethau	35.1%
3. Cyfnodau benthyg hirach	28.1%

Pan ofynnwyd ichi a oeddech wedi ymweld ag un o amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin roedd y gyfran uchaf ohonoch (61.8%) wedi ateb yn gadarnhaol. Yr amgueddfa a gafodd y mwyafrif o ymweliadau oedd Amgueddfa Sir Gaerfyrddin yn Abergwili – roedd 57.2% o'r rhai a ddywedodd eu bod wedi ymweld ag amgueddfa yn Sir Gaerfyrddin wedi ymweld ag Amgueddfa'r Sir. Roedd Amgueddfa Parc Howard, Llanelli yn ail ar y rhestr(44.9%), ac yna'r Amgueddfa Cyflymder, Pentywyn (34.1%). Y rheswm mwyaf poblogaidd o lawer am ymweld ag amgueddfa oedd 'hamdden'.

Yn gyffredinol, roeddech wedi dweud eich bod yn fodlon ar y gwasanaeth amgueddfeydd a ddarparwyd gan Wasanaeth Treftadaeth Sir Gaerfyrddin.



Y 3 phrif reswm a roddodd y bobl a oedd heb ymweld ag amgueddfa oedd:

1. Wn i ddim beth sydd ar gael	40.2%
2. Wn i ddim lle mae'r amgueddfeydd	39.7%
=3. Dim diddordeb	21.6%
=3. Problemau mynediad / trafnidiaeth	21.6%

Pan ofynnwyd i'r bobl a oedd heb ymweld ag amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin, 'Beth fyddai'n achosi ichi ddechrau defnyddio'r gwasanaeth Amgueddfeydd yn amlach?' Y 3 awgrym uchaf oedd.....

1. Mwy o gyhoeddusrwydd am y gwasanaeth	59.0%
2. Mwy o gyhoeddusrwydd am ddigwyddiadau / arddangosfeydd	56.6%
3. Mwy o ddigwyddiadau / arddangosfeydd.	31.9%

Pan ofynnwyd ichi a oeddech wedi ymweld erioed â'r Gwasanaeth Archifau roedd y gyfran uchaf ohonoch (75.1%) wedi ateb yn negyddol. Y rheswm mwyaf poblogaidd dros ymweld â'r Gwasanaeth Archifau oedd ymchwilio i hanes teulu (58.0%).

Roedd yn galonogol bod 95.2% o'r bobl a oedd wedi ymweld â'r Gwasanaeth Archifau wedi dweud y byddent yn ymweld â'r gwasanaeth drachefn a bod 85.2% wedi dweud eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Archifau (37.5% yn fodlon iawn a 47.7% yn weddol fodlon).

Y 3 phrif reswm a roddodd y bobl a oedd heb ymweld â'r Gwasanaeth Archifau oedd:

1. Wn i ddim beth sydd ar gael	49.9%
2. Wn i ddim lle mae'r archifau / sut mae dod o hyd i'r archifau	39.0%
3. Dim diddordeb	22.3%

Pan ofynnwyd i'r bobl a oedd heb ymweld â'r Gwasanaeth Archifau 'Beth fyddai'n achosi ichi ddechrau defnyddio'r Gwasanaeth Archifau'n amlach?, Y prif awgrymiadau oedd:

Gwell cyhoeddusrwydd am yr hyn sydd yn yr archifau	88.2%
Cael gwasanaeth archifau yn agosach i'm cartref	23.7%

GWEITHREDU

Y Celfyddydau a Diwylliant

Mae canlyniadau'r rhan hon o'r arolwg yn rhan o brosiect ymchwil barhaus sy'n rhoi sylw i weithgareddau hamdden trigolion Sir Gaerfyrddin, yr argraff sydd ganddynt o wasanaethau hamdden y Cyngor a'r defnydd a wneir ohonynt. Dadansoddir y canlyniadau yn ôl gwahanol fathau o ddefnyddwyr e.e. yn ôl oed, rhyw a'r ardaloedd lle mae pobl yn byw. Mae'r canfyddiadau'n darparu gwybodaeth ar gyfer ein cynlluniau busnes trwy ddangos inni pa feysydd sydd wedi gwella ers yr arolwg diwethaf a thynnu sylw at y meysydd y mae angen rhoi rhagor o sylw iddynt.
Os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth ynghylch Amser Hamdden yn Sir Gaerfyrddin, cysylltwch os gwelwch yn dda â Huw Parsons, Rheolwr Marchnata, drwy ffonio 01269 590200 neu edrychwch ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin www.sirgar.gov.uk/hamdden

Y Gwasanaethau Llyfrgelloedd a Threftadaeth

Bydd y canlyniadau a geir o'r adran hon yn rhan o adolygiad cynhwysfawr o'r Gwasanaethau Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd ac Archifau. Pwrpas yr adolygiad yw nodi dewisiadau yn y dyfodol ar gyfer darparu'r gwasanaethau, yn ogystal â chanfod ffyrdd o sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n fwy effeithlon ac effeithiol.

Mae'r tîm wrthi ar hyn o bryd yn casglu, yn adolygu ac yn gwerthuso'r wybodaeth a goladwyd. Yna byddant yn paratoi Adroddiad Dewisiadau i'w drafod gan Uwch Swyddogion, Tîm Rheoli'r Adran Addysg a Gwasanaethau Plant a Chynghorwyr.

Byddwn yn rhoi canlyniadau'r adolygiad ichi mewn rhifyn arall o'r llythyr newyddion hwn yn y dyfodol.

Y BWRDD IECHYD LLEOL

Datblygu a Darparu Gwasanaethau yn eich Ardal

Roeddem wedi gofyn ichi a oeddech yn cytuno bod digon o wasanaethau yn eich ardal i sicrhau bod cymorth ar gael i'r grwpiau cleientiaid agored i niwed canlynol.

Manylir ar y canlyniadau isod:

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Nid yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n bendant
Cam-drin Domestig	5.0%	24.6%	57.3%	10.8%	2.3%
Anableddau Dysgu	6.0%	31.4%	48.7%	12.1%	1.8%
Afiechyd Meddwl	5.5%	25.4%	47.4%	16.5%	5.2%
Camddefnyddio Cyffuriau	5.3%	21.6%	51.8%	17.6%	3.8%
Camddefnyddio Alcohol	5.0%	18.5%	52.9%	20.0%	3.7%
Anableddau corfforol	7.1%	24.2%	50.5%	15.2%	3.0%
Pobl Ifanc ac Agored i Niwed	3.8%	18.8%	57.1%	18.3%	2.0%
Cyn-droseddwyr	4.6%	16.4%	61.9%	14.6%	2.6%
Pobl ddigartref	3.8%	15.3%	59.2%	17.9%	3.8%
Salwch Cronig	5.8%	21.8%	48.0%	18.0%	6.3%
Rhieni Sengl	7.4%	24.4%	54.6%	11.9%	1.8%
Pobl Hŷn	8.4%	25.3%	38.3%	18.8%	9.2%

Er mwyn deall beth yw'r blaenoriaethau roeddem wedi gofyn ichi nodi pa grwpiau cleientiaid yr hoffech chi weld gwasanaethau'n cael eu datblygu ar eu cyfer fwyaf. Pobl h n oedd ar frig y rhestr (69.1%) yna salwch cronig (52.6%) yna afiechyd meddwl (47.2%) pobl ifanc ac agored i niwed (46.7%) ac anableddau corfforol (44.6%).

Y Gwasanaethau sydd ar Gael Eisoes yn Eich Ardal

Roedd 23.6% ohonoch wedi dweud eich bod wedi cael profiad o wasanaethau a ariennir gan 'Cefnogi Pobl'. O'r rhain, roedd dwy ran o dair (69.7%) wedi dweud y byddai modd gwella'r gwasanaethau.

Cefnogi Pobl

Er mwyn asesu anghenion cyfathrebu a gwybodaeth y gronfa 'Cefnogi Pobl' roeddem wedi gofyn ichi a oeddech yn meddwl eich bod yn gwybod digon am y gronfa. Roeddech wedi dweud.....

Ydw	32.2%
Nac ydw	51.4%
Ansicr	16.4%

Yna roeddem wedi gofyn sut yr hoffech inni roi gwybod ichi ac ymgynghori â chi ynghylch y gronfa a'r math o wasanaethau sy'n cael eu hariannu gan y gronfa. Y dewis mwyaf poblogaidd oedd llythyr newyddion (57.9%) yna 'drwy'r cyfryngau lleol' (36.1%) yna 'drwy holiadur wedi'i anfon drwy'r post' (33.1%) ac 'yn bersonol drwy fynd i ddigwyddiad llai gyda gweithdai' (13.3%).

GWEITHREDU

Bydd y Tîm Cefnogi Pobl yn mynd â'r canlyniadau hyn i'w Gr p Cynllunio Cefnogi Pobl ynghyd â phwyntiau gweithredu i ymdrin â'r materion a godwyd, a bydd y rhain yn cynnwys:

- Adolygu'r angen am ddatblygu prosiectau i ddarparu cymorth yn ymwneud â thai ar gyfer pobl h n, pobl â salwch cronig, pobl ag anawsterau iechyd meddwl, pobl ifanc ac agored i niwed, a phobl sydd ag anableddau corfforol.
- Parhau i weithio gyda darparwyr gwasanaethau Cefnogi Pobl i wella'r modd y cyflawni'r gwasanaethau.
- Dosbarthu Llythyr Newyddion Cefnogi Pobl yn ehangach i gynnwys copïau papur mewn Canolfannau Gwasanaeth Cwsmeriaid ac adeiladau cyhoeddus eraill.
- Parhau i roi cyhoeddusrwydd i waith y Tîm Cefnogi Pobl a'r prosiectau/gwasanaethau sy'n cael eu hariannu gennym ni drwy'r papurau lleol, y radio ac asiantaethau partner megis CAVS.
- Edrych ar wella'r dulliau ymgynghori â defnyddwyr y gwasanaethau a'r cyhoedd yn gyffredinol.

HEDDLU DYFED-POWYS

Plismona Bro

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf mae Heddlu Dyfed-Powys wedi bod yn cyflwyno Timau Plismona Bro yn raddol drwy ardal yr Heddlu. Mae Plismona Bro yn golygu bod eich Timau Plismona Bro lleol chi, y partneriaid, y cymunedau a'r sector gwirfoddol i gyd yn cydweithio i fynd i'r afael â'r materion hyn a nodir gennych fel rhai sy'n peri pryder yn eich ardal.

Roedd 42.0% ohonoch wedi dweud eich bod wedi sylwi ar newidiadau yn eich cymuned ers cyflwyno Plismona Bro. Er hynny, roedd ychydig mwy na hanner ohonoch (50.6%) wedi dweud eich bod heb sylwi gwahaniaeth, ac roedd 7.6% ohonoch wedi dweud nad oeddech yn gwybod.

Gofynnwyd i'r rhai a oedd wedi sylwi newidiadau 'I ba raddau mae eich cymuned wedi newid ers cyflwyno Plismona Bro yn eich ardal? Roedd y canlyniadau fel a ganlyn.....

Wedi gwella llawer	20.1%
Wedi gwella ychydig	69.8%
Ychydig yn waeth	7.2%
Yn llawer gwaeth	2.9%

Pan ofynnwyd ichi a oeddech yn adnabod eich Plismon Bro / Swyddog Cymorth Cymunedol roeddech chi wedi dweud.....

Ydw, o ran ei enw ac o ran ei weld	16.5%
Ydw, o ran ei enw yn unig	8.2%
Ydw, o ran ei weld yn unig	12.9%
Nac ydw	62.7%

Roedd mwy na thraean ohonoch (38.3%) wedi dweud eich bod yn gwybod sut mae cysylltu â'ch Plismon Bro / Swyddog Cymorth Cymunedol, ond roedd bron dwy ran o dair ohonoch (61.7%) ddim yn gwybod.

Er mwyn asesu pa mor effeithiol yw'r cyhoeddusrwydd roeddem wedi gofyn ichi sut y clywsoch am Blismona Bro. Roeddech chi wedi dweud mai'r dulliau mwyaf effeithiol oedd papurau newydd, patrôl, posteri a thaflenni.

Yn sgil cyflwyno Plismona Bro mae'r cyhoedd wedi cael cyfle i weld sut mae'r heddlu yn ymdrin â phroblemau mewn partneriaeth â chyrff ac asiantaethau statudol eraill, ac i ddylanwadu ar hynny. Roedd tri chwarter ohonoch (75.8%) wedi dweud nad oeddech wedi sylwi ar newid yn y modd yr oedd Timau Plismona Bro yn ymdrin â'r materion a nodwyd gennych chi fel rhai oedd yn peri pryder yn yr ardal.

Roedd 84.9% ohonoch wedi dweud nad oeddech yn gwybod lle i gael manylion am y blaenoriaethau yr oedd eich tîm Plismona Bro yn ymdrin â nhw. Roedd 11.5% ohonoch yn gwybod lle i gael manylion ac roedd 3.6% ohonoch wedi dweud nad oedd diddordeb gennych.

Yn olaf, roeddem wedi gofyn pa mor llwyddiannus oedd y Timau Plismona Bro, ac roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

Wedi gwella llawer	5.0%
Wedi gwella ychydig	21.5%
Ychydig yn waeth	2.6%
Yn llawer gwaeth	2.4%
Heb newid	46.5%
Wn i ddim	22.6%

Disgos Golau Glas

Dechreuwyd cynnal y Disgos Golau Glas yn Rhydaman yn 2004. Y prif reswm dros eu cynnal yw sicrhau bod gan bobl ifanc rywle i fynd lle maen nhw'n ddiogel ac yn gallu cael hwyl heb fod dan bwysau i yfed alcohol ac ysmygu. Mae'r holl ddigwyddiadau hyn yn cael eu cynnal gan yr Heddlu law yn llaw â'r Gwasanaethau Ieuenctid. Ar ôl i'r bobl ifanc ddod i mewn maent yn aros yno wedyn tan y diwedd. Nid ydynt yn cael mynd i mewn ac allan. Nid oes alcohol ar gael yn y digwyddiadau hyn, ac ni chaniateir i bobl gael mynediad os ydyn nhw wedi bod yn yfed alcohol cyn y digwyddiad.

Roedd ychydig llai na hanner ohonoch (48.6%) wedi dweud eich bod wedi clywed am y Disgos Golau Glas a 57.6% wedi dweud eich bod heb glywed amdanynt.

Pan ofynnwyd am eich barn a'ch sylwadau ynghylch y Disgos Golau Glas, roeddech chi wedi dweud, "gwych i'r bobl ifanc", "syniad rhagorol", "adnoddau da", "mae pobl ifanc angen mwy" a "da iawn er mwyn cadw pobl ifanc oddi ar y strydoedd".

Roeddem wedi gofyn ichi a oeddech yn credu fod y Disgos Golau Glas yn helpu i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol / camymddwyn gan ieuenctid yn eich cymunedau ac roeddech chi wedi dweud:

Ydw	48.7%
Nac ydw	7.5%
Wn i ddim	43.8%

ARDAL BRAWF DYFED-POWYS

Mae Ardal Brawf Dyfed-Powys yn gyfrifol am lunio 2,500 o adroddiadau bob blwyddyn ar gyfer y Llysoedd a'r Bwrdd Parôl er mwyn rhoi cyngor ynghylch y dewisiadau o ran dedfrydu a rhyddhau o'r carchar. Mae'r System Asesu Troseddwyr yn cael ei defnyddio ar gyfer y gwaith hwn.

Roeddem wedi gofyn ichi ddewis 5 rhan o'r system hon oedd yn eich barn chi y rhai pwysicaf, a'ch prif ddewisiadau oedd:

Addysg, hyfforddiant, ac addasrwydd i waith	53.5%
Gwybodaeth am droseddau	42.4%
Dadansoddi troseddau	=41.2%
Camddefnyddio Cyffuriau	=41.2%
Agweddau	41.0%
Meddwl ac ymddygiad	38.7%

Mae'n bosibl bod rheidrwydd ar droseddwyr sy'n destun Gorchmynion Cymunedol i ddilyn rhaglen achrededig ynghylch ymddygiad troseddol. Mae Ardal Brawf Dyfed-Powys wedi hyfforddi staff i ddarparu chwech o raglenni achrededig gyda golwg ar leihau aildroseddu, naill ai'n gyffredinol neu o ran math penodol o drosedd.

Roeddem wedi gofyn ichi ystyried sut y caiff adnoddau eu defnyddio a gosod y chwe rhaglen hyn yn nhrefn eu pwysigrwydd, o ran diogelu'r cyhoedd a lleihau aildroseddu. Mae'r tabl isod yn dangos y canlyniadau ar sail 6 = y flaenoriaeth bennaf.

Rhaglen ar gyfer troseddwyr rhyw	19.0%
Sgiliau meddwl, rhaglen effeithio ar ymddygiad	18.6%
Rhaglen ymddygiad troseddol (un ag un)	14.6%
Rhaglen ar gyfer gyrwyr fu'n yfed	12.7%
Rhaglen integredig ar gyfer cam-drin domestig	8.8%
Rhaglen ar gyfer troseddwyr fu'n camddefnyddio sylweddau	8.4%

Bob blwyddyn mae Ardal Brawf Dyfed-Powys yn gyfrifol am lunio 2,500 o adroddiadau ar gyfer y Llysoedd a'r Bwrdd Parôl, gan oruchwylio 1,300 o droseddwyr a chydweithio â 250 o ddioddefwyr troseddau.

Roedd y mwyafrif ohonoch (36.4%) wedi dweud nad oeddech yn gwybod pa mor effeithiol oedd Ardal Brawf Dyfed-Powys o ran atal troseddwyr rhag aildroseddu. Manylir ar yr holl ganlyniadau isod:

Pa mor ffyddiog ydych chi fod Ardal Brawf Dyfed-Powys yn effeithiol o ran atal troseddwyr rhag aildroseddu?

Yn ffyddiog iawn	2.6%
Yn eithaf ffyddiog	19.7%
Ddim yn ffyddiog	32.3%
Ddim yn ffyddiog o gwbl	9.1%
Wn i ddim	36.4%

Pan ofynnwyd ichi 'Pa mor ffyddiog ydych chi fod Ardal Brawf Dyfed-Powys yn deg yn ei waith gyda throseddwyr a dioddefwyr?' unwaith yn rhagor roedd y mwyafrif ohonoch (43.4%) wedi dweud 'wn i ddim'.

Yn ffyddiog iawn	6.0%
Yn eithaf ffyddiog	37.4%
Ddim yn ffyddiog	9.9%
Ddim yn ffyddiog o gwbl	3.2%
Wn i ddim	43.4%

Welsh:Voice-5-english 12/3/08 4:32 PM Page 10

ADBORTH

Daliwch i roi eich barn i ni, er mwyn i ni barhau i wneud gwelliannau. Os hoffech gynnig sylwadau ar unrhyw agwedd benodol ar Banel Dinasyddion Sir Gâr, cysylltwch â:

Y Cydgysylltydd Ymgynghori
Polisi a Chwsmeriaid
Cyngor Sir Caerfyrddin
Neuadd y Dref
Llanelli
SA15 3AH

Ffôn: 01554 742304
E-bost: consultation@sirgar.gov.uk

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch ar ffurf print bras, Braille neu dâp sain, ffoniwch 01554 742304

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

PANEL DINASYDDION SIR GAERFYRDDIN